# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 12fed o Hydref 2022 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**

Y Cynghorwyr Wyn Evans, (Is-Cadair), Ruby Williams, Wyn Jones, Gerallt Davies a Hywel Lloyd.

**Hefyd yn bresennol:**

Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**

Cynghorwyr Eiddwen Merritt, Carys Morgan, Garym Roberts a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:**

Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Medi a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Golau yn Nerwen Gam:

Dywedodd ein Cynghorydd Sirol ei fod wedi cyfarfod a Simon Bray, Peiriannydd Golau gyda Cyngor Sir Ceredigion ac hefyd rhai o drigolion Derwen Gam ac ar ôl trafodaeth dywedodd Simon Bray, ar ôl ystyried fod y golau yn mynd i fod tu allan i Ganolfan Gymuned y pentref ac ei fod o fewn terfyn cyflymder y pentref y byddai'r golau yn fantais sylweddol i'r pentref.

Hefyd, dywedodd Simon Bray y bydd yn edrych mewn i gael golau ger Bro Ddewi.
Ynglyn a symud y safle bws i'r gulfan yn Ffos-y-ffin: Dywedodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies ers y cyfarfod gyda Ben Lake AS ac Elin Jones LlS i symud y safle bws, fod un o drigolion Ffos-y-ffin sydd mewn cadair olwyn wedi bod mewn gwrthdrawiad a char wrth geisio croesi'r gefnffordd i ddal bws, felly mae wedi cysylltu a'r swyddogion sydd ynghlwm a symud y gulfan er mwyn gobeithio cyflymu'r mater a ystyrir yn un bwysig i'r pentref.

**Mater cynllunio:**

A220674

Fferm Bargoed, Llwyncelyn, Aberaeron.

Ehangu arfaethedig o barc y carafannau

Dim gwrthwynebiad.

A220663

Penrhynbach, Ciliau Aeron, Llambedr-pont-Steffan

Estyniad o dô fflat tu ôl i'r eiddo.

Dim gwrthwynebiad.

A220707

Pentre Gwyliau'r Gilfach, Llwyncelyn, Aberaeron.

Ymgynghoriad Cynlluniau
Amrywiad o amod 1 o'r caniatâd cynllunio i ymestyn am 5 mlynedd arall.

Dim gwrthwynebiad.

**Unrhyw fater arall:**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 9fed o Dachwedd.